OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 3375 (Cy.300)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Ffliw Adar (H5N1) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

Gwnaed - - - -	*am 3.44p.m. ar 28 Tachwedd 2007*
Yn dod i rym - -	*am 3.59p.m. ar 28 Tachwedd 2007*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 8 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ffliw Adar (H5N1) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007; mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym am 3.59p.m. ar 28 Tachwedd 2007.

Diwygio

2.—(1) Ar ôl erthygl 14(2)(j) o Orchymyn Ffliw Adar (H5N1 Mewn Dofednod) (Cymru) 2006(**3**) mewnosoder—

"(ja) raw petfood, within the meaning of paragraph 48 of Annex I to Regulation (EC) No. 1774/2002, which complies with the requirements in Part B of Chapter II of Annex VIII to that Regulation;".

(2) Ar ôl paragraff 13(2)(j) o Atodlen 1 i Orchymyn Ffliw Adar (H5N1 Mewn Adar Gwyllt) (Cymru) 2006(**4**) mewnosoder—

"(ja) raw petfood, within the meaning of paragraph 48 of Annex I to Regulation (EC) No. 1774/2002, which complies with the requirements in Part B of Chapter II of Annex VIII to that Regulation;".

(**1**) 1981 p. 22.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) O.S. 2006/3309 (Cy.299).
(**4**) O.S. 2003/3310 (Cy.300).